Gweminar Symposiwm Cyflogaeth Am Ddim
Free Employment Symposium Webinar

# Cyfarfod â'ch cyd-gadeiryddion!

## Yr Athro Phil Reed, Prifysgol Abertawe

## &

## Gerraint Jones-Griffiths, person awtistig

### Yr Athro Phil Reed



Derbyniodd yr Athro Phil Reed D.Phil o Brifysgol Efrog, a bu'n ddeiliad Cymrodoriaeth Ymchwil ym Mhrifysgol Rhydychen a darllenyddiaeth mewn dysg ac Ymddygiad yng ngholeg Prifysgol Llundain cyn cymryd Cadair seicoleg ym Mhrifysgol Abertawe. Mae diddordebau ymchwil eang Phil yn cynnwys: dysg ac Ymddygiad; Awtistiaeth ac Ymyraethau Addysgol; a seicoleg a Meddygaeth, yn cynnwys Caethiwed i'r We ac Iechyd Iwro/Gynecolegol. Mae Phil wedi ysgrifennu sawl llyfr (yn ddiweddar, Interventions for Autism: Evidence for Educational and Clinical Practice), wedi cyhoeddi dros 280 o bapurau, ac wedi derbyn gwahoddiadau i gyflwyno ei waith mewn nifer o gynadleddau rhyngwladol. Mae Phil wedi cyflwyno ei waith ar Awtistiaeth ac Iechyd Menywod i Senedd Cymru, yn gwasanaethu ar Bwyllgor Canllawiau NICE, a derbyniodd 'Fedal Arlywydd y Weriniaeth' yn yr Eidal yn 2016 am ei gyfraniad gwyddonol i gymdeithas. Mae Phil yn ymddangos yn rheolaidd ar y cyfryngau, ac mae wedi cyfrannu i: 'Through the Wormhole with Morgan Freeman' ar Science Channel, 'Charlotte Church: Inside my Brain' ar y BBC, ITV Cymru, BBC Cymru a BBC Radio Wales. Mae nifer o eitemau arbennig ar ymchwil Phil i Gaethiwed i'r We wedi eu darlledu ar sioeau radio syndicetiedig yn yr UD (Richie Allen; Katherine Albrecht), yn ogystal â chyfraniadau yng nghylchgrawn Time, Cosmopolitan, The Sunday Times, The Daily Mail, ac yn lleol yn y Swansea Evening Post a'r Western Mail.

**Gerraint Jones-Griffiths**



Mae Gerraint yn 24 oed. Yn 2012 mynychodd Gerraint dawns Holly's Ball– seremoni i bobl awtistig sydd wedi cyflawni pethau eithriadol yn eu bywydau – daeth Gerraint yn ail allan o 700 o bobl gyda awtistiaeth yng Nghymru Yn 2011-2015 cafodd ei enwebu i fod yn aelod Cabinet Fforwm Ieuenctid Caerffili. Fel Cadeirydd yr Amgylchedd fe gynhaliodd ymgyrch ym Mwrdeistref Caerffili i stopio ysmygu mewn parciau. Mae'r Ymgyrch PoP (Gwarchod ein Parciau) wedi'i basio fel cynnig y Cyngor ac, ar wahân i Gyngor Powys, Cyngor Caerffili yw'r unig Gyngor i stopio ysmygu mewn parciau. Ym mis Tachwedd 2018, dyma Engage to Change yn enwebu Gerraint am y Gwobrau Anableddau dysgu Cymru yn y categori Chwalu Ffiniau, ac fe enillodd - cyrhaeddiad y mae'n ei deimlo yn falch iawn ohono. Mae Engage to Change yn brosiect cyflogaeth sy'n helpu i gael bobl ifanc rhwng 16-25 oed gyda awtistiaeth ac/neu anableddau dysgu i gyflogaeth am dâl. Gerraint oedd y Gweinyddwr Engage to Change o 2016-2018 ac yw'r Prif Lysgennad presennol.

Cliciwch yma i weld ffilm lle mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn cyfweld â Gerraint, Ebrill 2020: https://autismwales.org/cy/adnoddau/dod-i-adnabod-gerraint/